# Ysgol Rhys Prichard

# POLISI GWRTH-FWLIO

**CYFLWYNIAD**

Mae bwlio'n effeithio ar bawb ar ryw adeg yn ei fywyd, fel bwli, fel dioddefwr neu'r ddau. Mae hefyd yn effeithio ar y plant eraill hynny sy'n arsylwyr digwyddiad, a gellir tynnu disgyblion llai ymosodol i mewn drwy bwysau grŵp. Er bod bwlio'n digwydd ym mhob ysgol ar ryw ffurf neu'i gilydd, nid yw'n rhan anochel o fywyd ysgol nac yn rhan angenrheidiol o dyfu i fyny, ac anaml y bydd yn datrys ei hun.

Mae'n amlwg bod rhai jôcs, sarhad, ymddygiad bygythiol, cam-drin ysgrifenedig a thrais i'w cael yn ein cymdeithas. Ni ddylai unrhyw un person neu grŵp, boed yn staff neu'n ddisgybl, orfod derbyn y math hwn o ymddygiad. Dim ond pan fydd pob mater o fwlio yn cael sylw, y bydd plentyn mewn sefyllfa i gael y manteision mwyaf posibl o'r cyfleoedd sydd ar gael yn yr ysgol.

**PAM MAE ANGEN POLISI GWRTH-FWLIO?**

Yn Ysgol Rhys Prichard, credwn fod gan ein disgyblion yr hawl i ddysgu mewn amgylchedd cefnogol, gofalgar a diogel, heb ofni cael eu bwlio. Rydym yn ystyried holl elfennau unrhyw ddigwyddiad gan gynnwys systemau oedran, rhyw, cefndir ac ymyrraeth gyfredol.

Mae pob ysgol, yn fawr ac yn fach, yn cynnwys nifer o ddisgyblion sydd â'r potensial i arddangos ymddygiad bwlio. Fodd bynnag, os yw ysgol wedi'i disgyblu a'i threfnu'n dda, gall leihau nifer yr achosion o fwlio.

Mae'n bwysig, felly, fod gennym bolisi ysgrifenedig clir i hyrwyddo'r gred hon. Bydd rhaid i staff, disgyblion a rhieni fod yn gwbl ymwybodol y bydd unrhyw gwynion am fwlio yn cael eu trin yn gadarn, yn deg, yn gyson ac yn brydlon.

**BETH YW BWLIO?**

Mae bwlio yn fath o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gall amlygu ei hun mewn nifer o ffyrdd a gall fod ar ffurf:

- **Corfforol**

  Gall plentyn gael ei fwrw'n gorfforol, ei gicio, ei daro ac ati.

- **LLAFAR**

  Gall cam-drin geiriol fod ar ffurf galw enwau. Gall hyn cael ei gyfeirio at blant sy'n wahanol o ganlyniad i ryw, tarddiad ethnig, anabledd corfforol/cymdeithasol, neu bersonoliaeth, ac ati.

- Gadael rhywun allan

  Gall fwlio ddigwydd pan mae plentyn yn cael ei adael allan o drafodaethau neu weithgareddau, gyda'r rhai y credant eu bod yn ffrindiau iddynt.

- **DIFROD I EIDDO NEU LADRAD**

  Gall disgyblion gael eu heiddo wedi'i ddifrodi neu ei ddwyn. Gall bygythiadau corfforol gael eu ddefnyddio gan y bwli fel ffordd o orfodi plentyn arall i weithredu yn erbyn ei ewyllys, er mwyn i'r disgybl drosglwyddo eiddo.

**BETH Y GELLIR EI WNEUD I LEIHAU ACHOSION O FWLIO?**

- Sicrhau goruchwyliaeth ddigonol bob amser.

- Defnyddio unrhyw gyfle i drafod agweddau ar fwlio, a'r ffordd briodol o ymddwyn tuag at ei gilydd, e.e. y rhaglen ABCh a strategaethau ymyrraeth eraill.

- Delio'n gyflym, yn gadarn ac yn deg ag unrhyw gwynion, gan gynnwys rhieni lle bo angen.

- Adolygu Polisi'r Ysgol yn flynyddol, gan werthuso ei lwyddiant a'i ddiwygio yn ôl yr angen.

- Bydd gan Staff yr Ysgol strwythur disgyblaeth cadarn ond teg o hyd. Dylai'r rheolau fod yn syml ac yn hawdd eu deall.

- Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ac offer addysgu yn cydymffurfio â pholisïau cyfle cyfartal a gwahaniaethu ar sail hil yr ysgol ac nad ydynt yn cynnwys unrhyw elfennau a fyddai'n annog ymddygiad gwahaniaethol.

- Annog y disgyblion i drafod sut maen nhw'n cyd-dynnu â phobl eraill ac i ffurfio agweddau cadarnhaol tuag at bobl eraill. Byddai hyn yn cynnwys adolygiad o beth yw cyfeillgarwch mewn gwirionedd.

- Annog y disgyblion i drin pawb â pharch.

- Sicrhau bod disgyblion yn cael gwybod yn barhaus bod yr ysgol yn ystyried bwlio yn drosedd ddifrifol iawn a bydd yn cymryd pob cam angenrheidiol i'w ddileu o fywyd yr ysgol.

**CAMAU I'W CYMRYD PAN AMHEUIR BWLIO**

Os amheuir bwlio, dylid cyfweld â'r dioddefwr, yn ogystal â'r cyflawnwr ac unrhyw dystion. Os nodir bwlio, dylid cymryd y camau canlynol:

Rhoddir cymorth, cefnogaeth a chwnsela fel sy'n briodol i'r dioddefwyr a'r bwlis.

Gallwn gefnogi'r dioddefwyr drwy wneud un neu fwy o'r pethau canlynol:

- cynnig cyfle ar unwaith iddynt siarad am y profiad gyda'u hathro dosbarth, neu athro arall os ydynt yn dewis;
- hysbysu rhieni neu warcheidwaid y dioddefwr;
- cynnig cymorth parhaus os canfyddir bod angen hyn; a
- cymryd un neu fwy o'r chwe cham disgyblu a amlinellir isod i atal mwy o fwlio.

Rydym hefyd yn disgyblu, ond eto'n ymdrechu i helpu'r bwlis drwy wneud un neu fwy o'r pethau canlynol:

- siarad am yr hyn a ddigwyddodd, i ddarganfod pam y daethant i gymryd rhan;
- hysbysu rhieni neu warcheidwaid y bwli;
- os yw PCSO yn ymweld â'r ysgol a bod digwyddiad yn digwydd, gyda chaniatâd rhieni byddwn yn gofyn i'r PCSO drafod y mater gyda'r plentyn / plant
- parhau i weithio gyda'r bwli er mwyn dileu neu newid unrhyw agwedd rhagfarnllyd cyn belled ag y bo modd; a
- drwy gymryd un neu fwy o'r chwe cham disgyblu a ddisgrifir isod i atal mwy o fwlio.

**CAMAU DISGYBLU**

Dylai'r holl sancsiynau a osodir ar blentyn fod yn unol â'r polisi disgyblu cadarnhaol a fabwysiadwyd gan yr ysgol. Fodd bynnag, y realiti yw y bydd digwyddiadau o bosibl lle bernir bod ymddygiad plentyn yn ddigon amhriodol o ran gwarantu ymateb y tu allan i'r arfer o dynnu breintiau'n ôl. Isod ceir canllaw o'r camau i'w dilyn wrth ddelio ag ymddygiad o natur ddifrifol a achosodd ofid neu niwed i ddisgybl arall.

- Rhaid tynnu sylw'r Pennaeth, neu yn ei absenoldeb, at uwch aelod o staff, a rhoddir rhybudd llafar i'r plentyn bod ymddygiad o'r math hwn yn amhriodol, ni fydd yn cael ei oddef a rhaid iddo ddod i ben ar unwaith.

- Os bydd y drosedd yn cael ei hailadrodd, bydd y rhieni neu'r gwarcheidwad yn cael eu gwahodd i'r ysgol i drafod y mater. Trafodir strategaeth lle bydd yr ysgol a'r cartref yn cydweithio i atgyfnerthu'r difrifoldeb y sefyllfa ac annog newid mewn ymddygiad. Bydd y camau sydd i'w cymryd gan yr ysgol, os nad oes gwelliant mewn ymddygiad, yn cael eu hamlinellu.

- Os bydd yr ymddygiad yn parhau ac yn fwyaf cyffredin yn ystod amser egwyl, bydd y disgybl yn cael ei wahardd o weithgareddau yn ystod amser egwyl a/neu amser cinio.

- Os na fydd y bwlio'n dod i ben, rhoddir ystyriaeth i waharddiad.

- Os na fydd yr ymddygiad amhriodol yn dod i ben yn dilyn y camau a gymerwyd hyd yma, yna bydd y disgybl yn cael ei wahardd am gyfnod penodol. (Yn dilyn gweithdrefnau a amlinellwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Gwahardd o Ysgolion ac *unedau cyfeirio disgyblion'* LlCC Ebrill 2015 )

- Os nad oes gwelliant yn ymddygiad y disgybl ar yr adeg yma, yna mi fydd y plentyn yn cael ei argymell ar gyfer cael ei wahardd yn barhaol.

Caiff y polisi hwn ei fonitro gan y corff llywodraethu a chaiff ei adolygu yn ôl yr angen.

Adolygwyd y polisi hwn gan y staff ym mis Medi 2021. Mabwysiadwyd y polisi hwn gan Gorff Llywodraethol Ysgol Rhys Prichard ar 10/11/21

Signed: Chair of Governors Date: 10/11/21

Signed E T Davies Head teacher Date: 10/11/21